

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 15 Chwefror 2023

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 21 CHWEFROR 2023 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 24 Ionawr 2023 (copi ynghlwm).

5 PROSIECT YSGOL PLAS BRONDYFFRYN - ADRODDIAD GWRTHWYNEBIAD TREFNIADAETH YSGOL (Tudalennau 17 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd (copi ynghlwm), yn gofyn am adolygiad y Cabinet o'r Adroddiad Gwrthwynebiad ac a ddylid cymeradwyo'r cynnig a nodir yn yr Hysbysiad Statudol i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220.

6 STRATEGAETH YNNI GOGLEDD CYMRU, Y CYNLLUN GWEITHREDU CYSYLLTIEDIG Â CHYNLLUNIO YNNI ARDAL LEOL YN SIR DDINBYCH (Tudalennau 45 - 108)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant (copi ynghlwm), yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Strategaeth Ynni Gogledd Cymru, a nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â chychwyn Cynllunio Ardal Leol yn Sir Ddinbych.

7 COMISIYNU SEFYDLIADAU I DDARPARU RHAGLEN DAN Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN (Tudalennau 109 - 160)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd (copi ynghlwm), yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gomisiynu Cadwyn Clwyd a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i ddarparu rhaglen waith (gan gynnwys cyfundrefn grantiau neu 'Gronfa Allweddol') dan rai ymyriadau'r Gronfa Ffyniant Cyffredin.

8 ARGYMHELLION BWRDD Y GYLLIDEB - CYFALAF (Tudalennau 161 - 168)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2023/24 ac argymhelliad i'r Cyngor llawn.

9 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 169 - 196)

Ystyried adroddiad (**sydd yn cynnwys atodiad cyfrinachol**) gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET (Tudalennau 197 - 202)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

**Gwyneth Ellis
Gill German
Elen Heaton
Julie Matthews
Jason McLellan**

**Barry Mellor
Win Mullen-James
Rhys Thomas
Emrys Wynne**

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ar ddydd Mawrth, 24 Ionawr 2023 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Karen Edwards, Pauline Edwards, Justine Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Alan James, Terry Mendies, Merfyn Parry, Peter Scott, Gareth Sandilands ac Andrea Tomlin

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Swyddog Monitro / Llywodraethu a Busnes (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG); Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (LG); Cyd-bennaeth Dros Dro, Gwella Busnes a Moderneiddio (NK); Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (DS); Rheolwr Cyllid Allanol (AS); Cydlynnydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd (SE) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ ac SJ [i we-ddarlledu])

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYD

Ar y pwynt hwn, ac yn dilyn cais hwyr gan y Cynghorydd Peter Scott i ofyn cwestiwn, defnyddiodd yr Arweinydd ei ddisgresiwn a chaniatáu i'r cwestiwn gael ei ofyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Scott ei gwestiwn i'r Arweinydd fel a ganlyn –

“Diolch Arweinydd, am y cyfle hwn. Gwn eich bod wedi bod yn sgwrsio â James Davies, AS; a gaf i gadarnhau y byddwch yn gweithio gyda James i geisio trefnu'r gronfa lefelu hon ar gyfer Gogledd Sir Ddinbych er budd Sir Ddinbych?”

Ymatebodd yr Arweinydd i'r cwestiwn fel a ganlyn -

“Diolch Peter. Dydw i heb siarad gyda James yn ddiweddar; rwyf wedi cael trafodaeth dros e-bost gydag o. Byddaf yn cyfarfod ag o yn ddiweddarach yr wythnos hon i drafod rhaglen y gronfa ffyniant bro a rownd 3, nad ydym yn ymwybodol o'r manylion llawn. Fel sy'n hysbys i bawb sy'n bresennol, mae gennyf farn ar sut nad yw rhaglen y gronfa ffyniant bro wedi gweithio i Ddyffryn Clwyd. Mae James yn ymwybodol o'r farn honno. Rwy'n eithaf sicr y byddwn yn cael trafodaeth onest ac yn symud ymlaen i rownd 3.”

Diolchodd y Cyngorydd Scott i'r Arweinydd am ei ateb.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2022.

Cywirdeb – Tudalen 12, Eitem 9 Argymhellion y Grŵp Pennu Ffioedd Rhanbarthol – cyfeiriodd y Cyngorydd Bobby Feeley at y pwyntiau cywirdeb canlynol yn yr ail baragraff: dylid newid “2023/34” i “2023/24” a dylid newid “Inform” yn y Saesneg i “Infirm”.

Materion yn Codi – Tudalen 12, Eitem 9 Argymhellion y Grŵp Pennu Ffioedd Rhanbarthol – Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dywedodd y Pwyllgor Llywodraethu a Busnes fod y penderfyniad yn amodol ar gael ei alw i mewn i graffu a'i fod wedi'i ystyried yr wythnos flaenorol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Y canlyniad oedd peidio â chyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet, sy'n golygu y byddai'r penderfyniad yn aros ac yn cael ei roi ar waith.

PENDERFYNWYD yn amodol ar y pwyntiau uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.

5 CEISIADAU BLWYDDYN 1 I'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN, A DIWEDDARIAD CYFFREDINOL YNGLŶN Â'R BROSES A'R AMSERLEN AR GYFER ROWNDIAU CEISIADAU'R DYFODOL

Cyflwynodd y Cyngorydd Jason McLellan yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin fel yr argymhellwyd, ac ystyriaeth o'r wybodaeth ar brosesau ac amserlenni ar gyfer ceisiadau i'r dyfodol a'r camau nesaf.

Roedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn rhan o gyfres o fuddsoddiadau Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, gyda £21.2m ar gael i gymunedau Sir Ddinbych rhwng 2022 a mis Mawrth 2025 ar draws tair thema â blaenoriaeth buddsoddi (1) Cymunedau a Lle; (2) Cefnogi Busnes Lleol, a (3) Pobl a Sgiliau.

Manylodd y Cyd-Bennaeth Dros Dro, Gwella Busnes a Moderneiddio ar y broses ymgeisio ar gyfer gwario cyllid blwyddyn 1. Roedd wedi'i chyfyngu i awdurdodau lleol yn unig oherwydd nad oedd terfynau amser caeth ar gyfer cyflawni a'r telerau ariannu rhwng Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol wedi'u cytuno eto, a thrwy hynny'n cario rhywfaint o risg ariannol. Yn unol â'r canllawiau, roedd Grŵp

Partneriaeth wedi'i sefydlu i roi cyngor ar gydweddiad strategol a'r gallu i gyflawni, ac roedd y prosiectau yr argymhellwyd eu bod yn cael cyllid wedi'u nodi yn Atodiad A i'r adroddiad gyda dadansoddiad o'r crynodeb dyrannu a oedd yn cyfateb i danwariant o bron i £604k yn 2022/23. Gallai'r tanwariant hwnnw gael ei ailbroffilio ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 ac felly ni fyddai'n cael ei golli.

Tywysodd y Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata y Cabinet drwy'r broses a'r amserlenni ar gyfer gwahoddiadau pellach i wneud cais am arian fel yr amlinellwyd yn Atodiad B i'r adroddiad, ynghyd ag unrhyw risgiau a chamau lliniaru arfaethedig. Cydnabuwyd bod amserlenni yn heriol ac roedd canllawiau'n cael eu cyhoeddi ymlaen llaw i roi amser i ddarpar gynigwyr ddechrau datblygu eu cynigion cyn agor gwahoddiadau am gyllid o £250k ac uwch. Roedd hyn yn cynnwys ceisiadau i gynnal Cronfeydd Allweddol (y byddai prosiectau llai yn cael eu cyflawni drwyddynt) erbyn diwedd mis Ionawr, gyda dyddiad cau o 24 Chwefror ar gyfer ceisiadau cam 1. Byddai'r Grŵp Partneriaeth yn adolygu ceisiadau ac yn gwneud argymhellion i'r Cabinet.

Canmolodd yr Arweinydd y prosiectau a argymhellwyd a oedd yn amrywiol eu natur ac a fyddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl ledled y sir. Wrth groesawu'r adroddiad a chyfleoedd buddsoddi, ymhelaethodd y Cabinet ar werth prosiectau penodol o fewn cymunedau a gwahanol sectorau o gymdeithas, a'r cyfoeth o fuddion y byddent yn eu cyflwyno, gan arwain at effaith wirioneddol a chadarnhaol yn yr ardaloedd hynny, yn enwedig o ran mynd i'r afael ag amddifadedd a gwella lles.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- roedd trafodaethau technegol yn ymwneud â memorandwm o ddealltwriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, a oedd yn arwain ar ran y rhanbarth, a Llywodraeth y DU yn parhau ond yn gynhyrchiol. Roedd yn bwysig y gellid tynnu cyllid yn effeithlon tra hefyd yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu a monitro cadarn ar waith; nid oedd unrhyw risg i wariant na chyflawniad y prosiect
- roedd trafodaethau gyda phartneriaid allanol ynglŷn â chynnal Cronfeydd Allweddol er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer prosiectau llai ar draws y sir hefyd yn mynd rhagddynt, a'r bwriad oedd adrodd yn ôl ar hynny i'r Cabinet y mis canlynol.
- trafodwyd y broses flaenoriaethu ar gyfer prosiectau, a nodwyd bod blaenoriaethau Sir Ddinbych wedi'u cynnwys yn y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol. Roedd rhagor o waith yn cael ei wneud yn lleol ac ymagwedd thematig yn unol â'r Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod ceisiadau'n cael eu gwahodd yn unol â'r blaenoriaethau corfforaethol hynny.
- er bod cyllid blwyddyn 1 wedi'i gyfyngu i'r awdurdod lleol oherwydd amserlenni a risg ariannol, byddai blynyddoedd 2 a 3 hefyd yn cael eu hagar i gynigwyr allanol a byddai cymysgedd o geisiadau mewnol ac allanol yn cael eu hystyried gan y Grŵp Partneriaeth gydag argymhellion prosiect dilynol i'r Cabinet. Mae'n debygol y byddai rhai prosiectau sy'n elwa o gyllid blwyddyn 1 hefyd yn cyflwyno cynigion ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 i barhau a/neu ddatblygu'r prosiect ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.
- Amlygwyd yr angen i gynnwys aelodau llawn yn y broses ac roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn awyddus i Grwpiau Ardal Aelodau gymryd

rhan, gan nodi hefyd y byddai prosiectau'n debygol y gellid eu hailadrodd neu'n berthnasol ar draws gwahanol feysydd. Amlygwyd hefyd y gofyniad am fethodoleg gadarn ar sail anghenion a thystiolaeth ar gyfer blaenoriaethu er mwyn ymateb i angen lleol ar draws y sir a darparu tryloywder wrth wneud penderfyniadau yn gysylltiedig â blaenoriaethau corfforaethol a themâu cynlluniau corfforaethol. Croesawodd swyddogion gyfraniad yr aelodau lleol, gan gadarnhau bod diweddariad i aelodau ar y gweill

- ymhelaethodd swyddogion ar y cymorth sydd ar gael i helpu ymgeiswyr i baratoi ceisiadau a sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n effeithiol, yn enwedig rôl yr Uwch Dîm Arwain wrth ymgysylltu â cheisiadau awdurdodau lleol a chefnogi Grwpiau Ardal Aelodau yn y broses honno. Ystyriwyd y byddai'r ceisiadau agored am dros £250k yn dod oddi wrth sefydliadau ag adnoddau da yn hynny o beth. Roedd trafodaethau cynnar wedi'u cynnal gydag ymgeiswyr tebygol ar y broses, gyda gwaith pellach ynghylch diwydrwydd dyladwy. O ran prosiectau o dan £250k, byddai cyllid ar gael yn y Cronfeydd Allweddol hynny i ddarparu cymorth i ymgeiswyr a chyflawni prosiectau.
- ar gyfer darpar ymgeiswyr am gronfa ffyniant gyffredin, roedd yn bwysig canfod a oedd prosiectau posibl yn ymwneud â'r themâu blaenoriaeth buddsoddi ac yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol yn hynny o beth. Fodd bynnag, roedd y cyngor am ymgysylltu a gweithio'n agos gyda chymunedau a sefydliadau cymunedol i helpu ymgeiswyr i gael cyllid priodol a pherthnasol, boed yn gyllid y gronfa ffyniant gyffredin neu'n ffrydiau ariannu eraill, er mwyn hwyluso a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu a chyflawni prosiectau llwyddiannus ledled y sir.
- darparwyd mwy o fanylion yn ymwneud â rôl y Grŵp Partneriaeth yn seiliedig ar ganllawiau'r DU, a oedd yn cynnwys yr aelodau craidd a'r aelodau ymgynghorol, er mwyn sicrhau bod amrywiaeth eang o sefydliadau yn llywio trafodaethau ac argymhellion i'r Cabinet. Cytunwyd y dylid cyflwyno trosolwg o'r holl geisiadau i'r Cabinet, nid dim ond y prosiectau hynny a argymhellwyd gan y Grŵp Partneriaeth.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) cymeradwyo'r ceisiadau fel y manylir arnynt yn Atodiad A i'r adroddiad, yn seiliedig ar yr argymhellion gan y Grŵp Partneriaeth Craidd, a*
- (b) nodi'r wybodaeth ar y prosesau a'r amserlenni ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol, fel y manylir yn Atodiad B i'r adroddiad a'r camau nesaf.*

6 CYNLLUNIAU BYW Â CHYMORTH ANABLEDD DYSGU SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Elen Heaton yr adroddiad gan geisio cymeradwyaeth y Cabinet i estyniad dros dro i gontractau a'r broses ar gyfer ail-dendro contractau mewn perthynas â Chynlluniau Byw â Chymorth Anableddau Dysgu Sir Ddinbych. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys atodiad cyfrinachol a oedd yn cynnwys gwybodaeth a allai o bosibl arwain at adnabod unigolion a gwybodaeth fasnachol sensitif, a gofynnwyd i'r Cabinet symud i sesiwn breifat pe baent yn bwriadu trafod elfennau cyfrinachol y ddogfennaeth.

Cymeradwyodd y Cabinet estyniadau tebyg, yn ogystal â phroses i ymgymryd â thendrau bach dan Fframwaith Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Byw â

Chymorth i'r contractau ym mis Medi 2021. Fodd bynnag, nid oedd gwaith wedi symud ymlaen mor gyflym ag a ragwelwyd, yn bennaf oherwydd Covid-19, ac roedd ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar yr opsiwn o daliadau uniongyrchol i ddinasyddion sy'n byw â chymorth, gyda'r tendrau cyntaf i'w hysbysebu ym mis Ebrill 2024. Ar gyfer contractau nad oedd taliadau uniongyrchol yn briodol, byddai tendrau bach yn cael eu cyflwyno ar sail unigol rhwng mis Ebrill 2024 a mis Gorffennaf 2026. Roedd estyniad pellach ar y contract wedi ei geisio er mwyn galluogi i'r gwaith hwnnw gael ei gynnal.

Eglurodd y Pennaeth Dros Dro, Gwasanaethau Cymunedol a Chymorth fod dinasyddion a gofalwyr, yn enwedig yn y maes anableddau dysgu, yn teimlo bod ail-dendro contractau'n rheolaidd yn peri gofid, a bod trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda dinasyddion a gofalwyr ynghylch yr opsiwn o gomisiynu gofal a chymorth drwy daliadau uniongyrchol, a fyddai'n arwain at beidio â gorfod adolygu contractau mor rheolaidd. Ni fyddai taliadau uniongyrchol yn cael eu mynnu a byddai cynlluniau'n cael eu hail-dendro yn ôl yr angen. Eglurwyd y byddai'r broses ail-dendro yn cynnwys grwpio pecynnau gofal gyda'i gilydd lle y bo'n briodol, er mwyn symleiddio'r broses a hwyluso proses haws a chynt ar gyfer dinasyddion a gofalwyr. Amlygodd y Cynghorydd Julie Matthews bwysigrwydd parhad gofal a chyfarwydd-deb ar gyfer lles preswylwyr, yn enwedig o ran byw â chymorth, ac roedd yn gwbl gefnogol i'r dull gweithredu a'r argymhellion.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo rhoi estyniadau dros dro i 41 o gontractau Byw â Chymorth Anableddau dysgu am gyfnod hyd at 30 Medi 2026 fan bellaf. Roedd manylion y contract a'r amserlen ddiwygiedig arfaethedig ar gyfer ail-dendro'r contractau ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

7 CYLLIDEB 2023/24 – CYNIGION TERFYNOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad a oedd yn amlinellu goblygiadau Setliad drafft Llywodraeth Leol 2023/24 a'r cynigion ar gyfer cyllideb derfynol 2023/24, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor. Cyfeiriodd yr Arweinydd at Weithdy Cyllideb y Cyngor a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol, y daeth llawer iddo, ac ychwanegodd y Cynghorydd Ellis fod aelodau wedi cydweithio'n dda ar y broses i bennu'r gyllideb, a chanmolodd y Pennaeth Cyllid a'i dîm ar y gwaith hwnnw.

Rhoddodd y Cynghorydd Ellis a'r Pennaeth Cyllid drosolwg o broses y gyllideb a'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf, gan ymhelaethu ar y cynigion i'w hystyried a'u hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn pennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24. Roedd y setliad drafft wedi arwain at setliad cadarnhaol o 8.2% (o gymharu â chyfartaledd Cymru o 7.9%) a disgwylir setliad terfynol ddechrau mis Mawrth 2023. Roedd y setliad yn cynnwys yr holl godiad cyflog ar gyfer swyddi dysgu a swyddi nad ydynt yn rhai dysgu, a'r cyfrifoldeb i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol i staff gofal cymdeithasol. Roedd pwysau o £25.116m wedi'u nodi ac roedd y setliad o +8.2% wedi cynhyrchu £14.231m gan adael bwlch ariannu o £10.885m, a chynigion i lenwi'r bwlch hwnnw wedi'u nodi yn yr adroddiad a'u hegluro ymhellach yn y cyfarfod. Roedd cynnydd o 3.8% yn Nhreth y Cyngor wedi'i gynnig i gynhyrchu £2.13m o reffeniw ychwanegol. Gan fod y setliad terfynol yn hwyr, argymhellwyd bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo er mwyn galluogi addasiadau arian parod yng nghynigion y gyllideb hyd at £500,000. Roedd y setliad drafft hefyd wedi cynnwys

codiad setliad cyfartalog dangosol o 3.0% ar gyfer 2024/25. Yn olaf, ategwyd yr ymgynghoriad helaeth ar y broses gosod cyllideb a chyfranogiad yr holl aelodau yn y broses honno.

Talodd y Cabinet deyrnged i waith y Pennaeth Cyllid a'i dîm ar y gyllideb, gan ganmol yr ymgysylltiad ehangach â'r holl fudd-ddeiliaid ac aelodau etholedig fel rhan o broses pennu'r gyllideb, a oedd wedi bod yn glir, yn dryloyw ac yn gynhwysol. Croesawyd hefyd y setliad gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhai o'r pwysau a nodwyd a'r gwaith rheoli cyllideb effeithiol a gynigiwyd i gau'r bwch ariannu. Bu modd sicrhau codiad arfaethedig o 3.8% yn Nhreth y Cyngor, a oedd ar ben isaf y codiadau dangosol ledled Cymru.

Wrth ystyried yr adroddiad cafwyd dadl faith ar wariant priffyrdd. Gofynnodd y Cynghorydd Emrys Wynne am sicrwydd ynghylch digonolrwydd y buddsoddiad uwch o £4m yn y rhaglen gyfalaf priffyrdd wrth symud ymlaen, fel y cynigiwyd gan y Cyngor. Cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley at y difrod difrifol a achoswyd i rai o ffyrdd y sir o ganlyniad i'r tywydd garw eithafol dros y misoedd diwethaf, na ellid bod wedi ei ragweld, ac roedd wedi creu ôl-groniad enfawr o waith atgyweirio a fyddai angen cyllid ar ei gyfer. Amlygodd y Cynghorydd Terry Mendies effaith chwyddiant ar y gwariant o £4m a'r angen dirfawr am fuddsoddiad mewn ffyrdd gwledig. Rhoddodd enghreifftiau o ffyrdd bron yn amhosibl eu croesi yn ward Dyffryn Alun, gyda rhai ffyrdd yn darparu un llwybr, ac felly yn rhaff achub, ar gyfer y cymunedau hynny. Awgrymodd y dylid ailedrych ar y gyllideb, ac y dylid cynyddu gwariant priffyrdd o 3.8% o leiaf, yn unol â'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor.

Ymatebodd Aelodau Arweiniol y Cabinet a swyddogion perthnasol i'r materion a godwyd, a'r cwestiynau a'r sylwadau dilynol ar gynnal a chadw priffyrdd fel a ganlyn -

- roedd y buddsoddiad o £4m yn y rhaglen gyfalaf priffyrdd a gynigiwyd gan y Cyngor wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2023/24, yn unol â'r ymrwymiad gwreiddiol i ariannu'r buddsoddiad dros bum mlynedd. Fodd bynnag, roedd angen cymeradwyo'r buddsoddiad cynyddol hwnnw'n flynyddol fel rhan o broses pennu'r gyllideb
- adrodd ar strategaeth a blaenoriaethu gwariant priffyrdd, gyda rhaglen priffyrdd cyfalaf drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cael ei drafod gyda'r aelodau yn y rownd bresennol o gyfarfodydd Grŵp Aelodau Ardal i gael adborth cyn i'r drafft gael ei gwblhau. Er bod y cynnydd mewn chwyddiant yn effeithio ar yr hyn y gellid ei gyflawni, roedd y cyllid ychwanegol eisoes yn gwneud gwahaniaeth, a phe bai'r buddsoddiad cynyddol yn cael ei gynnal dros nifer o flynyddoedd byddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd rhwydwaith ffyrdd y sir.
- Cydnabu'r Cynghorydd Barry Mellor gyflwr gwael rhai o ffyrdd y sir a derbyniodd gynnig gan y Cynghorydd Mendies i fynd gydag o ar daith o amgylch ei ward; byddai unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn priffyrdd yn cael ei groesawu ond roedd angen cydbwysu'r gofynion a'r pwysau ar draws holl wasanaethau'r cyngor wrth osod y gyllideb a chadw codiadau Treth y Cyngor mor isel â phosibl
- ariannwyd y buddsoddiad cynyddol o £4m yn y rhaglen gyfalaf priffyrdd drwy fenthycu ychwanegol, gydag amcangyfrif o fenthycu ychwanegol o £235k o gyllid cyfalaf yn 2023/24; roedd lle fel rhan o'r gyllideb i ddefnyddio £131k i

ariannu prosiectau cyfalaf yn ystod y flwyddyn a fyddai'n cyfateb i fuddsoddiad cyfalaf o £2.2m – gellid defnyddio'r mecanwaith hwnnw i wneud cais am fuddsoddiad priffyrdd ychwanegol a byddai'n amodol ar y prosesau penderfynu arferol

- Roedd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yn cydnabod y dirywiad mewn cyflwr ffyrdd mewn rhai ardaloedd ond hefyd y gwelliannau o ganlyniad i'r buddsoddiad ychwanegol. O ystyried y broses helaeth a gynhaliwyd i lywio'r gwaith o bennu'r gyllideb a gwneud penderfyniadau, nid oedd yn ystyried ei bod yn briodol penderfynu ar ddyrannu elfennau cyllidebol penodol ar gyfer gwasanaethau yn y fforwm hwn. Roedd wedi'i siomi nad oedd y mater wedi'i godi'n flaenorol fel rhan o'r broses gynhwysfawr honno.
- cydnabuwyd bod y tywydd yn effeithio ar gyflwr y ffyrdd a bod llawer o ffyrdd ar draws y sir mewn cyflwr gwael. Nid oedd y buddsoddiad o £4m yn gyfrifiad gwyddonol gan y gwasanaeth i sicrhau bod yr holl ffyrdd mewn cyflwr da - byddai angen llawer mwy o arian. Er y byddai'r gwasanaeth yn amlwg yn hoffi mwy o ran dyraniad cyfalaf, roedd hefyd yn deall cyfyngiadau sefyllfa gyllidebol gyffredinol y cyngor. Cyn y dyraniad o £4m roedd y gwasanaeth yn cael tua £2.5m, oedd yn golygu bod ffyrdd bach yn dioddef oherwydd bod y ffocws ar y ffyrdd hynny oedd yn peri'r risg fwyaf ac yn cael eu defnyddio fwyaf. Roedd y dyraniad o £4m wedi galluogi mwy o ffocws ar ffyrdd bach gyda thua £1.5m wedi'i glustnodi ar gyfer ffyrdd bach gwledig a threfol.

Gofynnodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, er eglurder, i gofnodi yn y cofnodion nad oedd unrhyw gronfa Ffyniant Bro wedi'i ddyfarnu i'r Cyngor yn berthnasol i'r broses o bennu cyllideb ar gyfer 2023/24, a oedd yn gwbl ar wahân. Mewn ymateb i amrywiol gwestiynau eraill a godwyd ar yr adroddiad, eglurodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion -

- y pwysau cynyddol ar gyflwyno'r rhaglen Prydau Ysgol am Ddim Cynradd i bawb sy'n ymwneud â'r grant ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; oherwydd yr oedi yn y data ni ellid hawlio'r elfen honno'n ôl gan Lywodraeth Cymru tan y flwyddyn ganlynol pan fyddai'r ffigur gwirioneddol yn hysbys
- roedd y cynnydd yn y gyfradd codi tâl ddyddiol ar gyfer rheoli prosiect yn unol â'r gyfradd gyfredol ac yn ymwneud yn bennaf â chostau untro ar draws y cyngor. Roedd y rhan fwyaf wedi'u hariannu gan grant ac yn annhebygol o effeithio ar y gyllideb sylfaenol
- roedd gofal a chymorth o'r maint cywir a'r gostyngiad yn nifer y galwadau gofal lle mae angen mwy nag un gofalwr yn bosibl oherwydd y defnydd o offer ac addasiadau, ac felly cafwyd darpariaeth gwasanaeth mwy urddasol a chost-effeithiol. Roedd y cynnydd mewn micro-ddarparwyr a gwirfoddolwyr yn y system ofal gyffredinol hefyd yn gam cadarnhaol, gan ddarparu mwy o ddewis i ddinasyddion ac yn arfer ffordd dda o weithio
- Roedd dileu budd-dal tai yn ymwneud ar y cyfan â gordaliadau - gwnaed rhagdybiaethau ymlaen llaw pan fyddai rhywun yn dod i mewn i'r system budd-daliadau er mwyn osgoi oedi cyn talu wrth ddisgwyl data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi perfformio'n dda o dan Civica a byddai'r Cyngor yn adeiladu ar y gwaith hwnnw gan fod y gwasanaeth yn ôl yn fewnol.

Wrth gloi'r eitem, amlygodd yr Arweinydd y ddadl dda a'r cyfraniadau a wnaed i gynigion gosod y gyllideb, a fyddai'n cael eu hystyried gan y Cyngor llawn ar 31 Ionawr. Croesawodd y setliad gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi cydnabod y pwysau ar lywodraeth leol, a thalodd deyrnged i waith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn y broses lobio honno a hefyd i'r cyn Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, y bu iddo etifeddu, drwy CLILC, ddeialog agored gyda Llywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) *nodi effaith Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2023/24;*
- (b) *cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac y manylir arnynt yn Adran 4 yr adroddiad, ac yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2023/24;*
- (c) *argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog arfaethedig o 3.8% yn Nhrefn y Cyngor;*
- (d) *argymell i'r Cyngor fod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500mil os oes yna symud rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol, a*
- (e) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 5 i'r adroddiad).*

Ar y pwynt hwn (12 dydd) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

8 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhodddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23 oedd £233.696 miliwn (£216.818 miliwn yn 2021/22)
- rhagwelir y byddai gorwariant o £2.305 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol (cafwyd gorwariant o £2.189 miliwn y mis diwethaf)
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybiaethau presennol yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol ynghyd ag effaith y coronafeirws a chwyddiant.
- manylion am arbedion gwasanaethau a chynnydd mewn ffioedd a thaliadau (£0.754 miliwn); ni ofynnwyd am arbedion gan Wasanaethau Cymorth Cymunedol nac Ysgolion
- rhodddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a chafwyd diweddariad ar brosiectau mawr.

Gofynnwyd hefyd i'r Cabinet gymeradwyo cynlluniau i wario grant cyfalaf (£1.107m) ar gynllun prydlesu digartrefedd i gaffael eiddo sector rhentu preifat ychwanegol.

Amlygodd y Pennaeth Cyllid mai'r prif symudiad ers adroddiad y mis blaenorol oedd yn y Gwasanaethau Plant, gyda chynnydd bychan yn y gorwariant oherwydd cynnydd mewn lleoliadau preswyl newydd. Ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu roedd yn falch o adrodd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau grant digartrefedd o £400k, a fyddai'n lleihau'r gorwariant o'r swm hwnnw. Roedd yn ymddangos hefyd y gallai Llywodraeth Cymru ryddhau mwy o gyllid yn ystod y flwyddyn, dros y ddau/tri mis nesaf, ac y byddai unrhyw ddatblygiadau yn hynny o beth yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet. Yn olaf, gofynnwyd am gymeradwyaeth i'r achos busnes yn ymwneud â Chynllun Prydlesu Digartrefedd Cymru a ariannwyd gan grant Llywodraeth Cymru yn gyfan gwbl, ac a fyddai'n caniatáu prydlesu eiddo preifat at ddibenion digartrefedd. Croesawodd y Cynghorydd Rhys Thomas y cyllid grant ar gyfer y cynllun a gefnogodd yn llawn er budd pobl ddigartref y sir.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) *nodir cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb; ac*
- (b) *cymeradwyo cynlluniau i wario grantiau cyfalaf (£1.107miliwn) i roi cynllun prydlesu digartrefedd ar waith i gyflawni eiddo sector rhentu preifat ychwanegol fel y nodir yn Adran 6.9 ac Atodiad 5 i'r adroddiad.*

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried.

PENDERFYNWYD nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.

Ar y pwynt hwn, dywedodd yr Arweinydd mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cabinet i gael ei gefnogi gan Sharon Evans, Cydlynnydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd, gan ei bod yn gadael ei swydd bresennol i weithio ar gyfer gwasanaeth arall yn y Cyngor. Talodd yr Arweinydd deyrnged i'r gwaith gwerthfawr a'r gefnogaeth ragorol yr oedd wedi'i darparu iddo ef ei hun fel Arweinydd ac i'r Cabinet yn gyffredinol. Ar ran y Cabinet, diolchodd iddi am ei holl waith caled a dymunodd y gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	21/02/23
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cyng. Gill German / Geraint Davies
Pennaeth Gwasanaeth	Geraint Davies
Awdur yr Adroddiad	Lisa Walchester/ James Curran
Teitl	Prosiect Ysgol Plas Brondyffryn - adroddiad gwrthwynebiad Trefniadaeth Ysgol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu Aelodau'r Cabinet ynglŷn â'r gwrthwynebiadau a gafwyd o ran yr Hysbysiad Statudol a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Adolygu'r adroddiad gwrthwynebu ac ystyried penderfyniad yr hysbysiad statudol

3. Beth yw'r Argymhelliad?

Gofynnir i'r Cabinet:

- 3.1 Adolygu'r Adroddiad Gwrthwynebu sydd ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn;
- 3.2 Ystyried p'un a yw'r broses statudol sydd wedi'i nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion wedi'i dilyn yn foddhaol;
- 3.3 Ystyried p'un a ddylid cymeradwyo'r cynnig a nodir yn yr Hysbysiad Statudol o ran cynyddu'r capasiti o 116 i 220 yn Ysgol Plas Brondyffryn;

3.4 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les, Atodiad 1, fel rhan o'u hystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae hwn yn brosiect Band B yn rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru, sef rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif gynt. Amlinellwyd yr ymrwymiad i'r cynnig hwn mewn rhaglen Amlinellol Strategol, a gafodd ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2020. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys dyraniad cyffredinol o £23.8 miliwn ar gyfer y prosiect hwn. Gan fod y prosiect hwn ar gyfer ysgol arbennig, bydd Llywodraeth Cymru, yn ddibynnol ar gymeradwyo'r Achos Busnes perthnasol, yn darparu 75% o'r cyllid a bydd Sir Ddinbych yn darparu'r 25% sy'n weddill yn unol ag ymrwymadau'r Cynllun Corfforaethol.
- 4.2. Mae Ysgol Plas Brondyffryn yn ysgol 3-19 oed sy'n cynnig darpariaeth arbenigol i ddisgyblion gydag awtistiaeth. Y llynedd bu i Gyngor Sir Ddinbych gwblhau cyfnod o ymgynghori ffurfiol o ran y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220. Bydd yr ysgol yn symud i adeilad pwrpasol newydd sbon i ganiatáu ar gyfer y cynnydd.
- 4.3. Ar 18 Hydref 2022 bu i Gabinet y Cyngor ystyried Adroddiad yr Ymgynghoriad a chytuno i symud ymlaen gyda'r cynnig gan newid y dyddiad gweithredu o 1 Medi 2024 i 28 Ebrill 2025.
- 4.4. Agorwyd y cyfnod Gwrthwynebu Statudol ar ddydd Mawrth 8 Tachwedd 2022 am gyfnod o 28 diwrnod, gan ddod i ben ar ddydd Llun 5 Rhagfyr 2022. Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd 2 wrthwynebiad ar e-bost.
- 4.5. Mae'r gwrthwynebiadau yn canolbwyntio ar leoliad yr adeilad newydd, yn arbennig addasrwydd y safle, pryderon am draffig a cholli man gwyrdd, yn hytrach na'r cynnydd arfaethedig mewn capasiti. Mae'r Hysbysiad Statudol yn nodi 'fod y gweithrediad yn amodol ar gytuno ar safle, cael caniatâd cynllunio, cyllid ar gael a'r adeilad newydd yn barod'.
- 4.6. Wrth benderfynu ar y cynigion mae'r Cod Trefniadaeth Ysgol yn nodi bod rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau:

- ystyried a oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill;

- sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi ei gynnal yn unol â'r Cod hwn;
- sicrhau bod y cynnig wedi ei gyhoeddi yn unol â'r Cod hwn a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol;
- ystyried dogfen yr ymgynghoriad ac adroddiad yr ymgynghoriad;
- ystyried y gwrthwynebiadau a'r adroddiad gwrthwynebu ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad sy'n cefnogi'r cynigion;

4.7. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgol yn nodi'n glir "pan fo cynigion awdurdod lleol wedi cael gwrthwynebiadau ac angen penderfyniad o dan adran 53 o Ddeddf 2013, ni ddylai'r awdurdod lleol ystyried y cynigion hyn gyda meddwl caeedig. **Rhaid** i wrthwynebiadau gael eu hystyried yn gydwbodol ochr yn ochr â'r dadleuon o ran y cynigion ac yng ngoleuni'r ffactorau a nodir yn adran 1.3 - 1.4 y Cod hwn."

4.8. Wrth ystyried y cynnig dylai'r Cabinet gymryd ystyriaeth o'r ffactorau a amlygwyd yn y cod sy'n cynnwys ansawdd a safonau mewn addysg, yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion, adnoddau addysg ac oblygiadau ariannol eraill a'r ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion ar gyfer ad-drefnu Darpariaeth AAA (ADY) fel nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgol.

4.9. Hefyd, yn unol â Deddf 2013, mae angen i'r Cabinet roi ystyriaeth lawn i'r amcanion a gafwyd gan y Gymuned i'r cynnig. Caglwyd y gwrthwynebiadau mewn Adroddiad Gwrthwynebu sy'n nodi manylion y gwrthwynebiadau a gafwyd ac ymateb yr awdurdod lleol i'r pryderon hyn. Mae hwn wedi ei atodi fel Atodiad 2.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau

5.1. Mae'r prosiect yn gysylltiedig â'r thema "Sir Ddinbych sy'n dysgu ac yn tyfu" yn y Cynllun Corfforaethol 2022-2027 newydd a fabwysiadwyd - trwy ddarparu adeiladau a chyfleusterau o ansawdd uchel, gan weithio mewn partneriaeth â Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru ac i gefnogi ysgolion i symud i fod yn Ysgolion Cymunedol, yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau i helpu i fodloni anghenion disgyblion, eu teuluoedd, a'r gymuned ehangach.

5.2. Bydd yr adeilad newydd yn cyfrannu at nod y Cyngor i fod yn ddi-garbon net erbyn 2030. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd gofyn i brosiectau

adeiladau newydd, o 1 Ionawr 2022, ddangos eu bod yn bodloni targedau digarbon net. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddant yn ariannu hyn yn llawn yn unol â'r meincnodau maent wedi'u nodi. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r achos busnes wrth i'r cynllun ddatblygu ac wrth i'r costau ddod yn fwy eglur.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Bydd cost isel iawn i'r Cyngor mewn perthynas â chyhoeddi'r adroddiad Gwrthwynebu.
- 6.2. O ran y gwaith adeiladu, rydym ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd y costau'n cynyddu y tu hwnt i'r dyraniad cychwynnol o £23.8 miliwn. Mae hyn yn unol â'r pwysau ehangach ar gostau adeiladu sydd wedi cynyddu'n sylweddol. Bydd opsiynau gwerth peirianeg hefyd yn cael eu harchwilio er mwyn sicrhau cyn lleied o gynnydd â phosibl, ond mae'n annhebygol y bydd y rhain yn gwrthbwysu unrhyw bwysau chwyddiant. Bydd yn rhaid i'r Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn a gyflwynir i Lywodraeth Cymru adlewyrchu'r pwysau hwn. Mae'n debygol y bydd yn rhaid defnyddio'r cyllid wrth gefn heb ei neilltuo fel rhan o raglen amlinellol Sir Ddinbych ar gyfer Band B.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Gweler Atodiad 1 sydd ynghlwm - Adeilad newydd - Ysgol Plas Brondyffryn.
- 7.2. Prif gasgliadau'r adroddiad yw:
 - 7.2.1. Sgoriodd y cynnig 3 allan o 4 seren a 28/36,
 - 7.2.2. Mae'r cynnig yn ystyried dyfodol hirdymor yr ysgol wrth i'r galw am y mathau hyn o lefydd ysgol gynyddu. Bydd yr adeilad newydd yn caniatáu i'r ysgol ddefnyddio'r gofod yn hyblyg a darparu un safle i bob aelod o staff a disgyblion.
 - 7.2.3. Bydd yr adeilad ei hun yn helpu'r economi lleol ac yn rhoi pwyslais cryf ar fuddion cymunedol.
 - 7.2.4. Wrth i'r prosiect ddatblygu, mae'r asesiad wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau. Ymgynghorwyd â'r ysgol a swyddog arall o fewn addysg.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Mae'r prosiect ar raglen Grŵp Ardal Aelodau Dinbych fel eitem sefydlog ac felly darperir diweddariadau ym mhob cyfarfod.
- 8.2. Mae staff yr ysgol a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r prosiect ac wedi ymgysylltu â'r cyfarfodydd cynllunio gydag Wates.
- 8.3. Mae'r adran priffyrdd, cynllunio, hamdden a TGCh mewnol yn ymwybodol o'r prosiect a chafwyd adborth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Fel nodwyd yn adran 6 bydd cost isel iawn i'r Cyngor mewn perthynas â chyhoeddi'r adroddiad Gwrthwynebu. Er bod y rhaglen wedi ei chymeradwyo mewn egwyddor bydd rhaid i'r oblygiadau cost ehangach a'r Achos Busnes ar gyfer y prosiect terfynol (gan gynnwys goblygiadau cyllid ar gyfer CSDd a'r rhaglen ehangach wrth symud ymlaen) fynd trwy'r Broses Cymeradwyo Cyfalaf newydd.

10. Beth yw'r peryglon ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Mae'n rhaid i'r broses ymgynghori ffurfiol gael ei chwblhau ochr yn ochr â phrosesau cymeradwyo cynlluniau a chyllid yr adeilad newydd.
- 10.2. Y risg lliniaru yw y bydd y broses o benodi'r prif gontractwr yn ffurfiol ar gyfer y gwaith adeiladu'n digwydd ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori ffurfiol. Felly pe bai gwrthwynebiad sylweddol i'r cynnig yn gynnar yn y broses, fe allai'r Cyngor oedi penodiad y prif gontractwr fel sy'n briodol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- 11.1. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu cynigion ysgolion a datblygu cynigion i aildrefnu darpariaeth ysgolion.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

New build- Ysgol Plas Brondyffryn

Well-being Impact Assessment Report


This report summarises the likely impact of the proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	860
Brief description:	The impact of bringing Ysgol Plas Brondyffryn together on one site in a new purpose built building in Denbigh. The school is currently over 3 sites in the town.
Date Completed:	15/10/2021 15:46:11 Version: 1
Completed by:	Lisa Walchester
Responsible Service:	Education & Children Services
Localities affected by the proposal:	Denbigh,
Who will be affected by the proposal?	Staff and pupils at the school
Was this impact assessment completed as a group?	No

IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach


 (3 out of 4 stars) Actual score : 28 / 36.


Summary for each Sustainable Development principle

Long term	A new building for Ysgol Plan Brondyffryn will see its capacity increase by approx 100 places and will give the school an opportunity to design the school how they want to and ensure flexibility for the future in terms of the curriculum delivery and pupil numbers. It will bring all staff and pupils onto one site in a purpose build school fit for 21st Century learning.
Prevention	The increase in places at the school is needed- currently there is waiting list for the school and this September they Year 7 pupils were unable to move to the secondary due to lack of room and have and to remain in the primary site. As the proposal develops the impact of the build on the environment and on energy use moving forward will be considered.
Integration	We need to increase the capacity at the school significantly as demand increases for pupil places of this nature. If we do not local pupils will have to travel into other Local Authority areas to access these places or stay in unsuitable schools that cannot cater for their needs. By building a brand new build nearby to the current school- delivery on all current sites will not be disrupted.
Collaboration	We are already engaging with the school at a management level- with the senior staff and governors.
Involvement	As mentioned we are already engaging with the school and as we move forward parts, carers and pupils will be consulted in what they would like to see in the new school. As the project develops pre planning consultation will be undertaken with local residents.

Summary of impact

Well-being Goals

A prosperous Denbighshire	Positive
A resilient Denbighshire	Positive
A healthier Denbighshire	Positive
A more equal Denbighshire	Positive
A Denbighshire of cohesive communities	Positive
A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language	Neutral
A globally responsible Denbighshire	Positive



Main conclusions

The project to bring together Ysgol Plas Brondyffryn on one site in a brand new building links with the Corporate priority of Young People and will enhance pupils learning. All the well being goals have

positive impacts except one which is neutral. As the business case for the proposal develop there will be a requirement for an on-going assessment process to ensure that potential impacts are appropriately addressed- i.e. if we need to undertake bat surveys for example. The build itself will help the local economy and will have a strong emphasise on community benefits. Once the school is completed the pupils and staff will have a modern purpose built facility that will match their needs and allow more pupils to access this type of school in the locality. The transition process for pupils will be managed in partnership with the school and staff and will be planned for in a detailed manner as will the decant of each site.

Evidence to support the Well-being Impact Assessment

- We have consulted published research or guides that inform us about the likely impact of the proposal
- We have involved an expert / consulted a group who represent those who may affected by the proposal
- We have engaged with people who will be affected by the proposal

THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

A prosperous Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	The new build will bring all pupils of the school together on one site with improved facilities and outdoor areas. The project will also increase the schools current capacity- the school is currently over its capacity and demand for places continues to increase.
Further actions required	Work closely with the appointed contractor on how we can reduce any carbon emissions during the build stage.

Positive impacts identified:

A low carbon society	Reduce the carbon footprint of the school as 3 buildings will be vacated and the new building will employ new technologies.
Quality communications, infrastructure and transport	Utilise existing transport links. New build will have new ICT infrastructure which will improve the ICT delivery at the school.
Economic development	Building phase of the project will have Community benefits and use of local labour, apprentices etc.
Quality skills for the long term	The schools new facilities could provide pupils with opportunities to develop practical life and work skills- for example an operational cafe.
Quality jobs for the long term	The new provision will secure and increase the number of jobs at the school. Better facilities will also increase staff morale and improve staff retention.
Childcare	The new school will increase the amount of places available at this special school for pupils with Autistic Spectrum Condition.

Negative impacts identified:

A low carbon society	The construction of the new build will create carbon emissions.
Quality communications, infrastructure and transport	N/A
Economic development	N/A
Quality skills for the long term	N/A
Quality jobs for the long term	N/A
Childcare	N/A

A resilient Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	The site of the new building will be on an existing playing field and therefore we do not see a major disruption to the eco system. As described above any issues will be mitigated for in the relevant manner.

Further actions required	Waste management plan will be requirement of the procurement process.
---------------------------------	---

Positive impacts identified:

Biodiversity and the natural environment	The project will ensure all relevant biodiversity studies are undertaken and any mitigation actions followed.
Biodiversity in the built environment	If required new habitat areas would be developed within the school grounds.
Reducing waste, reusing and recycling	Appointed contractor will have a waste management plan.
Reduced energy/fuel consumption	The new building will be designed to minimise energy costs. Consideration will be made on how the transportation of materials will be delivered to the site, sourcing locally where possible to reduce emissions.
People's awareness of the environment and biodiversity	Scope during the construction phase to involve the local community and the school.
Flood risk management	The issue of flooding will be examined during the design and planning stages.

Negative impacts identified:

Biodiversity and the natural environment	N/A
Biodiversity in the built environment	N/A
Reducing waste, reusing and recycling	N/A
Reduced energy/fuel consumption	N/A
People's awareness of the environment and biodiversity	N/A
Flood risk management	N/A

A healthier Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	Improved facilities for the school will assist in pupil and staff overall emotional and mental wellbeing. The building will be fit for purpose and will be flexible enough to adapt when it needs to.
Further actions required	Ensure all residents are informed and kept up to date in regards to build progress by the contractor.

Positive impacts identified:

A social and physical environment that encourage and support health and well-being	Improved facilities and learning environment will improve staff, pupil and community morale.
Access to good quality, healthy food	The school will have a dedicated dining area for all pupils.

People's emotional and mental well-being	Improved external areas for play and the new build could also house a hydro therapy pool to be used by pupils. All pupils on one site- no transition when pupils move from the primary to the secondary section of the school and any siblings at the school would be at the same site at all times.
Access to healthcare	N/A
Participation in leisure opportunities	Improved access to outdoor areas as well as improved external areas overall with more space and play equipment.

Negative impacts identified:

A social and physical environment that encourage and support health and well-being	N/A
Access to good quality, healthy food	N/A
People's emotional and mental well-being	Disruption for residents living near the site during the construction of the new build.
Access to healthcare	N/A
Participation in leisure opportunities	N/A

A more equal Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	The project will provide facilities that will support better teaching and an improved learning environment.
Further actions required	None

Positive impacts identified:

Improving the well-being of people with protected characteristics. The nine protected characteristics are: age; disability; gender reassignment; marriage or civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation	Improve access to education for those pupils with Autism Spectrum Condition.
People who suffer discrimination or disadvantage	Improve access to education for those pupils with Autism Spectrum Condition.

People affected by socio-economic disadvantage and unequal outcomes	N/A
Areas affected by socio-economic disadvantage	Pupils with ASC will have first class facilities to develop life and work skills.

Negative impacts identified:

Improving the well-being of people with protected characteristics. The nine protected characteristics are: age; disability; gender reassignment; marriage or civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation	N/A
People who suffer discrimination or disadvantage	N/A
People affected by socio-economic disadvantage and unequal outcomes	N/A
Areas affected by socio-economic disadvantage	N/A

A Denbighshire of cohesive communities

Overall Impact	Positive
Justification for impact	The proposal would bring the school community of Ysgol Plas Brondyffryn together in a brand new purpose built facility. The school already link in with Ysgol Tir Morfa and these links will be strengthened as facilities could also be accessed by these pupils. Facilities could also be offered out to community use where appropriate i.e. if there was a hydro therapy pool this could be available at weekends or evening to the health authority.
Further actions required	Keep residents informed of when any particular noisy works are to take place.

Positive impacts identified:

